OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2002 No. 3184

## Rheoliadau Deddf Addysg 2002 (Darpariaethau Trosiannol) (Cymru) 2002

### Addasu darpariaethau sy'n ymwneud ag athrawon

**7.**—(1) Yn ystod y cyfnod sy'n dechrau ar 31 Mawrth 2003 ac yn diweddu ar y diwrnod y daw paragraff 3(3) o Atodlen 12 i rym bydd adran 134(1) yn effeithiol fel pe bai'r geiriau "with full registration" wedi'u hepgor.

(2) Yn ystod y cyfnod sy'n dechrau ar 31 Mawrth 2003 ac yn diweddu ar y diwrnod pan ddaw'r rheoliadau o dan adran 134(1) i rym, bydd yr adran 12(2)(b) newydd o Ddeddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998 a amnewidir gan baragraff 81(a) o Atodlen 21 yn effeithiol fel pe amnewidiwyd y canlynol ar ei chyfer—

"(b) required as a consequence of their employment to be so registered by virtue of section 218(1)(aa)([1])) of the Education Reform Act 1988.".

([1]) Mewnosodwyd gan adran 11 o Ddeddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998.